

Cyngor Cymuned **Llanidan** Community
Council

Cofnodion / Minutes

Oherwydd diffyg aelodau yn y cyfarfod gwreiddiol 30ain Mawrth 2021,
fe penderfynwyd i gynnal cyfarfod ar-lein ar nos Fawrth, 13eg Ebrill 2021

*Due to the lack of members at the original meeting on 30th March 2021,
it was decided to hold the meeting online on Tuesday, 13th April 2021*

Presennol / Present: Ms Sandra Thomas **ST** (Cadeirydd / Chairperson), Mr Arwyn Jones **AJ** (Is-Cadeirydd / Vice Chairperson), Mr Cenwyn Williams **CW**, Cynghorydd Mr Eric W. Jones (CSYM) **EWJ**, Mrs Lindsay Vaughan **LV**, Cynghorydd Mr Dafydd Roberts (CSYM) **DR**, Mrs Lynn Hervouet (Clerc / Clerk) **LH**.

Ymddiheuriadau / Apologies: Dim / None

Yn absennol / Absent: Dim / None

Aelod o'r cyhoedd / Member of the public: Dim / None

1. Croeso / Welcome

Cadeiriwyd y cyfarfod gan **ST** ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol.
*The meeting was chaired by **ST** and all present were welcomed.*

2. Datgan Diddordeb / Declaration of Interest

Dim / None

3. Cofnodion Cyfarfod Diwethaf 23/02/21. / Minutes of last meeting 23/02/2021.

Derbyniwyd y cofnodion 23/02/21 yn gywir, Cynigwyd gan **LV**, Eiliwyd gan **ST**.
*The minutes 23/02/21 were confirmed correct, Proposed by **LV**, Seconded by **ST**.*

4. Balans ar 01/03/2021. / Balance on 01/03/2021.

Cyfrif Cyfredol "Community" (ar 01/03/2021)	-	£6,488.24
Cynilo "BMM" (ar 01/03/2021)	-	£ 4,944.99
	=	£11,433.23

Y Ganolfan - Balans yn y banc ar 25/03/2021. / Y Ganolfan Bank balance on 25/03/2021.

Cyfrif "Community" (ar 25/03/2021)	-	£ 10,412.92
Cynilo "BMM" (ar 25/03/2021)	-	£ 3,319.00

=

£ 13,731.92

5. Cyllid / Finance

5.1 Biliau sydd wedi ei dalu / Bills that have been paid

£44.52 I **LH** am adnoddau swyddfa (glud, ink du a papur A4), stampiau dosbarth 1af ag 2il ddosbarth / **To LH for office resources (glue, black ink and A4 paper), 1st & 2nd class stamps**

£160.00 - Mr N Jones am hel ysbwriel yn cae chwarae 2020/2021. / **To Mr N Jones for collecting rubbish in playing field 2020/2021.**

£780.00 - G L Jones am gwaith atgyweirio yn y cae chwarae / **G L Jones for repairs in the playground**

£251.70 - Swyddfa Archwilio Cymru, archwilydd allanol o gyfrifon 2019/2020 / **Wales Audit Office, external auditor of 2019/2020 accounts**

£164.00 - Adnewyddu aelodaeth Un Llais Cymru am 2021/2022 / **Renewing One Voice Wales' membership for 2021/2022**

5.2 Biliau iw dalu / Bills for payment

£715.00 - Cyflog y clerc (Ionawr, Chwefror, Mawrth 2021) / **Clerks wages (January, February, March 2021)**

5.3 Taliadau wedi Derbyn / Payments Received

£0.12 - Llôg banc / **Bank interest**

£2,054.92 - Ad-daliad HMRC am TAW / **HMRC VAT refund**

5.4 Ebstwyd copi o'r adroddiadau canlynol i pob aelod cyn y cyfarfod. / A copy of the following reports were emailed to each member before the meeting:

Adroddiad chwarterol / **Quartely Report 01/01/2021 - 31/03/2021,**

Adroddiad cyllidol / **Financial Report 01/04/2020 - 31/03/2021,**

Cymharwyd y ffigyrau uchod gyda ffigyrau rhwng 01/04/2020 - 31/03/2021. / **The above figures have been compared with figures between 01/04/2020 - 31/03/2021.**

Trafodwyd y cyfrifon yn ystod y cyfarfod. Derbyniwyd bod y cyfrifon yn gywir a diolchwyd i'r clerc am ei gwaith. / **The accounts were discussed during the meeting. The accounts were accepted as accurate and the clerk was thanked for her work.**

Cynigwyd gan **CW**, Eiliwyd gan **LV**. / **Proposed by CW, Seconded by LV.**

6. Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes

6.0.1 Cae Chwarae. / Playing field.

Ebstwyd copi o'r aesiad risg i pob aelod cyn y cyfarfod. Trafodwyd yr aesiad risg a derbyniwyd bod angen trin neu newid y polion ar gwrs rhwystrau yn y dyfodol. Diolchwyd i'r clerc am ysgrifennu aesiad risg ar gyfer y ddau leoliad. / **A copy of the risk assessment was emailed to all members in advance of this**

meeting. The risk assessment was discussed and accepted that the poles on the obstacle course needed to be treated or replaced in the future. The clerk was thanked for writing a risk assessment for both locations.

Yn dilyn fandaliaeth yn y cae chwarae yn ddiweddar, torrwyd un o'r siglenni bach. Mae angen prynu siglen newydd cyn gynted â phosib. / Following vandalism in the playground recently, one of the small swings was broken. A new swing needs to be purchased as soon as possible.

Nid rydym wedi derbyn yr holl amcangyfrifon ar gyfer pob arwydd sydd angen arnynt yn y cae chwarae. / We have not received all of the estimates for every signage that is needed in the playground.

6.0.2 Cae Pêl Droed / Playground Football Field

Ebostwyd copi o'r aesiad risg i pob aelod cyn y cyfarfod. Trafodwyd yr asesiad risg a derbyniwyd bod angen gweithredu ar unwaith ar y materion mewn coch. Diolchwyd i'r clerc am ysgrifennu asesiad risg ar gyfer y ddau leoliad. / A copy of the risk assessment was emailed to all members in advance of this meeting. The risk assessment was discussed and accepted that the issues in red need immediate action. The clerk was thanked for writing a risk assessment for both locations.

6.0.3 Grantiau i'r Y Ganolfan / Grants for Y Ganolfan

Mae'r trysorydd yr Ganolfan wedi llwyddo i wneud cais am nifer o grantiau Cofid ar gyfer atgyweirio'r adeilad. Rydym wedi bod yn llwyddiannus i dderbyn cyfanswm o £7,450.00 mewn pres grant. Darllenwyd yr ebost roeddem wedi'i dderbyn gan gyn-gadeirydd. Cytunwyd bod angen drws ffrynt newydd ar Y Ganolfan. / Y Ganolfan's treasurer has successfully applied for a number of Covid grants towards the repair of the building. We have been successful in receiving a total of £7,450.00 in grant funding. The email we had received from the former chairman was readout. It was agreed that the Y Ganolfan needs a new front door.

6.0.4 Y Ganolfan

Mae aelodau'r Cyngor Cymuned Llanidan yn derbyn bod angen chwilio am aelodau newydd ar gyfer pwyllgor y Ganolfan. A ydi hi'n bosib dod â gwahanol aelodau ynghyd yn fuan i drafod y mater yma? / Llanidan Community Council members accept that there is a need to look for new members by the Y Ganolfan committee. Is it possible to get different members together soon to discuss this issue?

Mae'r clerc wedi trefnu gyda'r adeiladwr bod y gwaith tamprwydd yn y toiledau a'r tô sydd yn gollwng yn y storfa yn cael ei wneud. / The clerk has arranged with the builder that the damp work in the toilets and the leaking roof in the store are carried out.

Rydym yn aros am amcanbris gan y peintiwr i wneud y gwaith paentio yn y toiledau a'r storfa. / *We are waiting for an estimate from the painter and decorator to do the painting in the toilets and storeroom.*

6.0.5 Mandad y banc / *Bank mandate*

Mae angen i'r clerc fynd i'r banc i ychwanegu'r aelod newydd ar y mandad. / *The clerk needs to go to the bank to add the new member on the mandate.*

6.0.6 Adleoli'r bin cyhoeddus yn y pentref / *Relocate the public bin in the village*

Mae'r bin cyhoeddus wedi'i ddychwelyd ger yr safle bws a'r capel. Mae'r clerc wedi diolch i'r adran wastraff am ddychwelyd. / *The public bin has been returned near the bus stop and chapel. The clerk has thanked the waste department for its return.*

6.0.7 Hen adeilad llyfrgell Criccieth / *Criccieth old library building*

Mae'r taliad ar gyfer ffioedd bargyfreithiwr wedi ei dalu allan o gronfa John Trevor Roberts (cronfa JTR). Rydym yn aros am y camau nesaf. / *The payment for a barrister's fees has been paid out of the John Trevor Roberts' will (JTR fund). We await the next steps.*

6.0.8 Ymddiswyddiad / Aelodau newydd / *Resignation / New members*

Rydym wedi derbyn ebost o ymddiswyddiad gan SAJ. / Mae'r clerc wedi hysbysebu am aelodau newydd ar gyfryngau cymdeithasol. Mae angen i ni hysbysebu yn Papur Menai bod gan y cyngor cymuned seddi gwag, y clerc i drefnu hyn. / *We have received an email of resignation from SAJ. The clerk has advertised for new members on social media. We need to advertise in Papur Menai that the community council has vacancies, the clerk to arrange this.*

6.0.9 Un Llais Cymru / *One Voice Wales*

Cynigiodd **AJ** fod yn gynrychiolydd cyngor cymunedol gyda Un Llais Cymru. / Mae un aelod wedi mynychu hyfforddiant ar-lein. / *AJ offered to be a community council representative with One Voice Wales / One member has attended online training.*

6.1.0 Peiriannau ail-lenwi poteli dŵr. / *Water refill stations.*

Mae'r clerc wedi archebu un peiriant ail-lenwi poteli dŵr. Bydd angen i aelodau ymweld â'r lleoliad i benderfynu ble yn union y mae y peiriant yma yn mynd. / *The clerk has ordered one water refill station. Members will need to visit the location to decide where exactly they need this machine.*

6.1.1 Gwerthusiad blyneddol i'r clerc / *Clerk's annual appraisal*

Oherwydd diffyg amser, nid oedd hi'n bosib i'r aelodau drefnu'r cyfarfod yma. I'w roi ar agenda mis Mai. / *Due to lack of time, it was not possible for members to arrange this meeting. To be put on May's agenda.*

6.1.2 Polisi Iaith Gymraeg / *Welsh Language policy*

Polisi Iaith Gymraeg i'w hadolygu (mae copi o'r polisi yma wedi'i ebostio at aelodau cyn y cyfarfod). Derbyniwyd a mabwysiadwyd y polisi yma. Bydd yn cael ei adolygu eto ymhen dwy flynedd. / *Welsh Language Policy to be reviewed (a copy of the policy has been emailed to members in advance of this meeting). This policy was accepted and adopted. It will be reviewed again in two years time.*

Cynigwyd gan **CW**, Eiliwyd gan **AJ**. / *Proposed by CW, Seconded by AJ.*

6.1.3 Llwybr cyhoeddus Rhif 14 / *Public footpath Number 14*

Mae'r clerc wedi derbyn llythyr yn gofyn a oes gan y cyngor cymuned unrhyw wrthwynebiadau i adleolillwybr cyhoeddus rhif 14, (ebostwyd copi o'r llythyr a'r map at yr aelodau cyn y cyfarfod). Aros am ymateb gan y cynghorwyr. I'w drafod yn ystod cyfarfod mis Ebrill. / *The clerk has received a letter asking if the community council has any objections to the relocation of public footpath number 14, (a copy of the letter and map was emailed to members in advance of this meeting). Awaiting response from the councillors. To be discussed during April's meeting.*

6.1.4 Asesiad risg llawn ar gyfer Cyngor Cymuned Llanidan / *Full risk assessment for Llanidan Community Council*

Mae'r clerc wedi cwblhau asesiad risg llawn ar gyfer y Cyngor Cymuned, (mae copi o'r asesiad risg wedi'i ebostio at aelodau cyn y cyfarfod yma). I'w drafod yn ystod cyfarfod mis Ebrill. / *The clerk has completed a full risk assessment for the Community Council, (a copy of the risk assessment has been emailed to members in advance of this meeting). To be discussed during April's meeting.*

6.1.5 Hysbyseb Cynnal y Llwybrau Cyhoeddus yn ardal Llanidan / *Advertise Maintaining Public Footpaths in the Llanidan area.* Anghen hysbysebu. / *We need to advertise.*

7. **Cynllunio / Planning**

7.1.1 Ceisiadau / *Applications* Dim / *None*

7.1.2 Penderfyniadau / *Decisions*

FPL/2020/46, Glan Rhos, Brynsiencyn - Cais llawn ar gyfer newid y defnydd o Lety Rheolwyr i fod yn Gyfleuster Gofal Ychwanegol yn / *Full application for the change of use from Managers Accommodation into an Extra Care Facility at*

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

Cais llawn ar gyfer newid y defnydd o Lety Rheolwyr i fod yn Gyfleuster Gofal Ychwanegol yn Glan Rhos, Brynsiencyn

RHYBUDD PENDERFYNIAD

Darllenwch yr amodau a restrir isod yn ofalus os gwelwch yn dda, efallai y bydd angen cyflawni rhai o'r amodau cyn, neu yn ystod, y gwaith datblygu. Mae eich cais wedi cael ei ystyried gan y Cyngor yn unol â'i awdurdod dan y Ddeddf uchod, a rhoddwyd **CANIATÂD** gyda'r amodau canlynol:-

(01) Bydd y gwaith y rhoddir caniatâd iddo yma'n cychwyn cyn i bum mlynedd o ddyddiad y caniatâd hwn ddod i ben. Rheswm: Er mwyn cydymffurfio ag Adran 18 y Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth)1990.

(02) Bydd gwaith ar y datblygiad a ganiateir yma yn cael ei gyflawni mewn modd a fydd yn cydymffurfio'n llwyr â'r manylion a ddangosir ar y cynlluniau a nodir isod, manylion sydd wedi eu cynnwys mewn unrhyw ddogfennau a gyflwynwyd gyda chais o'r fath oni bai eu bod wedi eu cynnwys yn narpariaethau'r amodau sy'n rhan o'r caniatâd cynllunio hwn.

Cynlluniau Llawr Bwriedig – CH-817-01-16-PL01 - Tachwedd

Drychiadau Bwriedig – CH-817-01-16-PL02 - Tachwedd

Cynllun Safle Bwriedig – CH-817-01-16-PL03 - Tachwedd

Cynllun Lleoliad– CH-817-03-16-PL04 - Tachwedd

Cynllun Rheoli Traffic Adeiladu a dderbyniwyd 08/06/2020

Rheswm: Sicrhau bod y datblygiad yn cael ei weithredu'n unol â'r manylion a gymeradwywyd.

Y cynllun datblygu sy'n berthnasol i Ynys Môn yw'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (2017). Roedd y polisiau canlynol yn berthnasol i'r sylw a roddwyd i'r cais hwn: TAI11, PCYFF2, PCYFF3

8. Gohebiaethau drwy ebyst / Correspondence via emails

Rhestrwyd gohebiaethau yn llawn yn agenda'r cyfarfod. / *Correspondence received was listed in full in the meeting's agenda.*

9. Adroddiadau gan y cyngorwyr sir. / Reports from the county councillors.

9.1 Adroddiad Cyngorydd EWJ / Councillor EWJ Report

Mae rhai cyngorwyr sir yn colli cael cyfarfodydd wyneb yn wyneb ac yn gobeithio y byddant yn gallu dychwelyd at hyn yn fuan os a phryd y bydd yn ddiogel i wneud hynny. / *Some county councillors miss having face-to-face meetings and hope they will get back to this soon if and when it is safe to do so.*

Mae'r cyngorydd eisiau anfon ei gydymdeimlad gyda sawl teulu sydd wedi colli aelod o'r teulu yn ystod y misoedd diwethaf. / *The councillor wants to send his*

condolences to the many families who have lost a family member in recent months.

9.2 Adroddiad Cynghorydd DR / Councillor DR Report

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gwerthu'r cwrs golff yn Llangefni. / Anglesey County Council is selling the golf course in Llangefni.

Mae llawer o fusnesau'r Cyngor Sir wedi parhau i weithio yn ystod y pandemig. / Many County Council businesses have carried on working during the pandemic.

Nid yw'r Cyngor Sir ar frys i gael staff yn ôl i weithio yn y swyddfeydd. / The County Council is not in a hurry to get staff back to work in the offices.

Mae gwefan y cyngor cymuned wedi'i ddiweddarau. / The community council website has been updated.

10. Unrhyw Fater Arall (gyda chaniatad y Cadeirydd) / Any Other Business (with permission from the Chairperson)

ST - Mae hi'n gyfrifol am brynu profion un llif ac offer amddiffynnol personol ar ran y Cyngor Sir . Yn ddiweddar, mae'r adran wedi gallu helpu pobl Caergybi gyda'r achosion diweddar o cofid. / *She is responsible for purchasing lateral flow tests and personal protective equipment on behalf of the County Council. The department has recently been able to help the people of Holyhead with their recent outbreak.*

LH - Mae'r clerc wedi penderfynu cynnal cyfarfod Mai 2021 wythnos ynghynt oherwydd gwyliau hanner tymor. / *The clerk has decided to hold the May 2021 meeting a week earlier due to half term holidays.*

Mae'r clerc wedi derbyn ebost yn ein hysbysu am archwiliad allanol eleni yn ogystal â chynnwys y dogfennau angenrheidiol. / *The clerk has received an email informing us of this year's external audit as well as containing the necessary documents.*

10.2 Nid oedd gan aelodau eraill dim i'w adrodd. / *Other members had nothing to report.*

11. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting

*Nos Fawrth, 27/04/2021 am 6.30y.h. ar-lein.
Tuesday Evening, 27/04/2021 at 6.30pm online.*